

**Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanedi a gynhaliwyd  
ar nos Fercher, Hydref 4<sup>ydd</sup> 2017 yn Ystafell Ddarllen yr Hendy.**

**Cofnod rhif 1 – Aelodau'n Bresennol**

**Cynghorwyr:**

M Nicholas  
T Higgins  
L Griffiths  
B Thomas  
G Thomas  
A Blackley  
M A Davies  
B Davies  
C Davies

Y Cadeirydd, y Cynghorydd M Nicholas, oedd yn llywyddu ar y cyfarfod
--

**Cofnod rhif 2 - Ymddiheuriadau am Absenoldeb**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddiwrth y Cynghorwyr C Higgins, B Evans, A Evans, I Davies a S Lyle.

**Cofnod rhif 3 – Datganiadau o Fuddiant**

Nid oedd unrhyw ddatganiad o fuddiant ynghylch y materion ar yr agenda.

**Cofnod rhif 4 – y Cynghorydd Buddug Thomas**

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Buddug Thomas yn ôl i'r Cyngor, wedi iddi dreulio amser yn yr ysbyty.

**Cofnod rhif 5 – Sarah McColl-Dorion**

Cyflwynodd y Cadeirydd Sarah Mc Coll Dorion, y Swyddog Datblygu Cymunedol newydd a apwyntiwyd yn ddiweddar, a'i chroesawu hi i'w swydd. Diolchodd y SDC i'r Cadeirydd a'r Cyngor am eu croeso twymgalon, a gofynnodd iddynt am unrhyw gymorth y byddent yn gallu ei gynnig ynghylch adnabod mudiadau lleol y dylai hi gysylltu â nhw er mwyn cyflwyno ei hun iddynt.

**Cofnod rhif 6 – Cyhoeddiadau'r Cadeirydd**

Dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi ymweld â phreswylwydd lleol yn yr Hendy ddoe ar achlysur dathlu ei phenblwydd yn 100 oed, ac roedd, ar ran y Cyngor, wedi cyflwyno tusw o flodau iddi. Nododd y Cadeirydd nad oedd enwau'r Cyn-

Gadeiryddion wedi cael eu hychwanegu at y gadwyn swydd ers amser maith. **Penderfynwyd** y byddai Aelodau'r Cyngor yn dod o hyd i'r enwau coll a ddylai gael eu hychwanegu at y gadwyn, a threfnu bod y gadwyn yn cael ei diweddarau.

### **Cofnod rhif 7 – Llofnodi'r Cofnodion – Cyfarfod y Cyngor, Awst 18<sup>fed</sup> 2017**

**Penderfynwyd** derbyn cofnodion y cyfarfod uchod, a ddsbarthwyd yn flaenorol, fel y'u darllenwyd, eu cadarnhau a'u llofnodi fel cofnod cywir a chyfreithlon o'r materion a drafodwyd.

**Rheswm**—cadw at ofynion Deddf Llywodraeth Leol 1972, at12, para 41 (1) a (4) ac adran 99.

### **Cofnod rhif 8 - Llofnodi'r Cofnodion – Cyfarfod y Cyngor, Medi 6<sup>ed</sup> 2017**

**Penderfynwyd** derbyn cofnodion y cyfarfod uchod, a ddsbarthwyd yn flaenorol, fel y'u darllenwyd, eu cadarnhau a'u llofnodi fel cofnod cywir a chyfreithlon o'r materion a drafodwyd.

**Rheswm**—cadw at ofynion Deddf Llywodraeth Leol 1972, at12, para 41 (1) a (4) ac adran 99.

### **Cofnod rhif 9 – Hyfforddiant – Datblygu'r Cynllun Lles**

Roedd y Clerc wedi atgoffa'r aelodau am y cynnig i drefnu sesiwn ar y cyd gyda 2 gyngor arall i ddatblygu polisi ar gyfer cynllun lles i'r gymuned. Dywedodd 5 o'r Cynghorwyr nad oeddent yn gallu mynychu'r hyfforddiant arfaethedig.

### **Cofnod rhif 10 – Clwb Criced yr Hendy**

Parthed â chofnodion cyfarfod diwethaf y Cyngor, dywedodd y Clerc bod ail rhan y cais i'r Gronfa Datblygu Cymunedau Gwledig wedi cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Nodwyd bod angen apwyntio Syrffëwr Meintiau er mwyn pennu costau'r datblygiad, yn unol â'r hyn a gytunwyd yn flaenorol.

### **Cofnod rhif 11 – Cynllun Clwb Criced yr Hendy**

Derbyniodd yr aelodau y cynlluniau diwygiedig ar gyfer y Clwb Criced fel canlyniad i'r cyfarfod safle diweddar. Roedd yr aelodau wedi cynnig y sylwadau ychwanegol canlynol:

- Mae angen ystyried os oes angen dist dur sy'n cynnal pwysau ar y wal rhwng yr ardal lletygarwch a choffi/ lolfa i agor i fyny yr adeilad cyfan.
- Mae angen i'r Cyngor ystyried a oes angen selar o dan ardal y bar, ac i newid cynllun y to, o do crwm i do ar oleddf.

- Mae angen cynnwys lifft i alluogi pobl anabl i gael mynediad at y llawr gwaelod isaf.
- Mae angen i'r cynllun gynnwys draeniad i'r cae criced.

**Penderfynwyd** bwrw ymlaen gyda chais cynllunio yn seiliedig ar y gwelliannau uchod, ac i ofyn i'r Clerc i gydweithio gyda'r Pensaer a'r Syrfëwr Meintiau i lunio atodlen a fydd yn lleihau'r costau.

### **Cofnod rhif 12 – y Cynghorydd M A Davies**

Gadawodd y Cynghorydd M A Davies y cyfarfod am 8.00 yh, ac ni ddychwelodd.

### **Cofnod rhif 13 – Adroddiad y Peiriannydd**

Roedd y Cyngor wedi derbyn copi o adroddiad terfynol y Peiriannydd ynghlyn â draenio safle'r Clwb Criced. Dywedodd y Cynghorydd G Thomas ei fod yn ymwybodol o nant mewn cwlferd sy'n croesi'r safle nad yw wedi cael ei nodi gan yr archwiliad safle.

### **Cofnod rhif 14 – Tîm Rygbi Iau Tycroes**

Roedd yr aelodau wedi derbyn cais oddiwrth dimau rygbi iau Clwb Rygbi Tycroes i ddefnyddio Ardal Chwaraeon Aml-Ddefnydd Tycroes. Bu trafodaeth gyffredinol ynghylch yr egwyddor o godi tâl am ddefnyddio cyfleusterau o'r math, a'r angen am gysondeb rhwng Ardaloedd Chwaraeon Aml-Ddefnydd yr Hendy a Thycroes. Roedd y Clerc wedi atgoffa'r aelodau bod yr arian a dderbynnir o'r Ardaloedd yn cael ei ddefnyddio yn rannol fel cronfa ad-dalu i ail-osod yr ardaloedd a garpedwyd yn y dyfodol.

**Penderfynwyd** na fydd y timau iau o dan 16 sy'n defnyddio'r Ardaloedd Chwaraeon Aml-Ddefnydd yn yr Hendy a Thycroes bellach yn talu am ddefnyddio'r cyfleusterau hyn.

### **Cofnod rhif 15 – Cyfethol Cynghorydd Cymuned**

**Penderfynwyd** gohirio ystyried y Cynghorydd i'w gyfethol tan gyfarfod nesaf y Cyngor. Gofynnwyd i'r Clerc i ofyn i'r ymgeiswyr i anfon CV i'w ystyried, ac i'w gwahodd i fynychu cyfarfod nesaf y Cyngor.

### **Cofnod rhif 16 – Labrwr Achlysurol- Ardaloedd Chwarae**

Riportiodd y Clerc bod rhai Cynghorau cyfagos wedi apwyntio llafur lleol achlysurol er mwyn cwblhau peth o'r atgyweiriadau ac addurno o'r ardaloedd chwarae, wedi'r trosglwyddiad asedau diweddar. **Penderfynwyd** apwyntio rhywun

i weithredu fel labrwr achlysurol, a gofynnwyd i'r cyngorwyr i enwebu pobl yn ardal yr Hendy a Thycroes a allai wneud y fath waith.

### **Cofnod rhif 17 – Wrenvale – Plannu Blodau Gwyllt**

**Penderfynwyd** derbyn y dyfynbris diwygiedig oddiwrth Wrenvale i gyflenwi llwyni i Barc Cwmfferws ar yr amod bod y coed yn cael eu tynnu allan o'r dyfynbris.

### **Cofnod rhif 18 – Atal Rheolau Sefydlog**

**Penderfynwyd** atal rheolau sefydlog er mwyn parhau i drafod busnes yn y cyfarfod ar ôl 9 yh.

### **Cofnod rhif 19 – Archwilad Allanol**

Roedd y Cyngor wedi derbyn copi o Adroddiad yr Archwilydd Allanol am y flwyddyn ariannol 2016-17. Nododd yr aelodau nad oedd yr Archwilydd am ddod ag unrhyw faterion gerbron y Cyngor o ganlyniad i'r archwiliad.

### **Cofnod rhif 20 – Digwyddiadau'r Nadolig**

Dywedodd y Cadeirydd ei fod yn gobeithio trefnu'r digwyddiad hwn yn Nhafarn y Deri yn Llanedi, a bydd yn hysbysu'r aelodau o'r trefniadau terfynol yn y man. Bydd goleuadau'r Nadolig yn cael eu goleuo ymhob ardal ar Ragfyr 1<sup>af</sup>.

**Penderfynwyd** bod yr Is-Gadeirydd yn mynychu'r digwyddiad yn yr Hendy a'r Cadeirydd yn mynychu digwyddiad Tycroes.

**Penderfynwyd** bod y Cyngor yn noddi mins peis a gwin twym fel yn y blynyddoedd blaenorol.

### **Cofnod rhif 21 – Adroddiadau Cyllid**

Derbyniodd y Cyngor Adroddiad Cyllid a oedd yn cynnwys yr elfennau canlynol:

- Cysoniad Banc
- Adroddiad ar yr Incwm a Dderbyniwyd
- Adroddiad ar y Gwariant arfaethedig
- Adroddiad ar dderbyniadau a thaliadau yn ôl pennawd cyllideb

**Penderfynwyd** nodi'r adroddiadau hyn.

### **Cofnod rhif 22 – Cynllunio Defnydd Tir – Deddf Cynllunio Gwlad a Thref**

#### **(a) Datblygiadau Arfaethedig**

**Penderfynwyd** cofnodi'r ceisiadau canlynol yn y cofnodion:

**Rheswm:** Nid oedd yr aelodau wedi gofyn i'r arsylwadau/gwrthwynebiadau mewn perthynas â'r datblygiadau arfaethedig gael eu cyfleu i Awdurdod Cynllunio'r Sir.

S/36098 Datblygu 5 tŷ annedd ar dir yn Heol Bronallt, yr Hendy, Abertawe.  
Neil McDonnell/Mrs C Williams.

S/36018 Newid defnydd ac ymestyn ysgubor i ffurfio anecs preswyl ar gyfer aelodau teulu'r tŷ annedd gerllaw yn Llwyn y Rhos, Heol Coopers, Rhydaman. Mr A ac E Davies.

S/36025 Garej a gweithdy arfaethedig yn Mount Pleasant, Heol Ebenezer, Llanedi. Mrs Anita Tomaszewski.

**(b) Hysbysiadau o Benderfyniadau a Gymeradwy-wyd Penderfynwyd** nodi'r ceisiadau canlynol i'r cofnodion.

Ni ddaeth unrhyw rai i law

**(c) Hysbysiadau o Benderfyniadau a Wrthodwyd**

Ni ddaeth unrhyw rai i law.

**(ch) Hysbysiadau o Benderfyniadau a Apeliwyd**

Ni ddaeth unrhyw rai i law

**Cofnod rhif 23 – Adroddiadau'r Cynghorwyr Sir**

Cafwyd adroddiad gan y Cynghorydd M Nicholas ar gyfarfod diweddar Grŵp yr Aman o Gynghorau Lleol. Dywedodd bod trafodaethau yn parhau rhwng aelodau'r grŵp i ystyried rhannu gwasanaethau am waith yn y gymuned, gan gynnwys gwaith cynnal a chadw, torri'r borfa ac arolygon iechyd a diogelwch o'r ardaloedd chwarae.

Cafwyd adroddiad gan y Cynghorydd G Thomas i ddweud bod caniatâd cynllunio wedi'i rhoi ar gyfer y safle datblygu arfaethedig yn Heol Bronallt, ond efallai bydd cwestiwn yn codi ynghylch materion hydroleg sy'n effeithio ar y safle.

Riportiodd y Cynghorydd G Thomas bod trefniadau yn cael eu gwneud ar gyfer seremoni agor Parc yr Hendy ar Hydref 26<sup>ain</sup>. Bydd y cynghorwyr yn derbyn manylion pellach yn y man.

Cafwyd adroddiad gan y Cynghorydd T Higgins ynghylch y gweithgareddau yr oedd wedi ymwneud â nhw yn ystod y mis blaenorol.

### **Cofnod rhif 24 – Adolygiad o’r Trefniadau Etholiadol**

Cafwyd trosolwg gan y Cynghorydd G Thomas o’r cynigion a awgrymwyd ynghylch diwygio’r trefniadau etholiadol sydd o dan ystyriaeth gan y Comisiwn Ffiniau.

### **Cofnod rhif 25 – Clwb Rygbi Tycroes**

Roedd y Clerc wedi derbyn llythyr oddiwrth Glwb Rygbi Tycroes yn gofyn am rodd pellach o £843.33 i’w helpu nhw i dalu am ddrysau tân ar gyfer y clwb. Roedd y Clerc wedi atgoffa’r aelodau bod angen i’r Cyngor sicrhau ei fod yn meddu ar y pwerau angenrheidiol i gynnig y rhodd ychwanegol hyn. Ar ôl ystyried y mater yn y ffordd ddyledus, **penderfynwyd** bod y Cyngor yn cynnig grant ychwanegol o £843.33 i Glwb Rygbi Tycroes.

*Roedd y Cyngorwyr T Higgins, C Higgins, a L Griffiths wedi datgan diddordeb yg Nghlwb Rygbi Tycroes, ac heb gymryd unrhyw ran yn y drafodaeth ynghylch yr eitem.*

### **Cofnod rhif 26 – Daffodiliau**

**Penderfynwyd** ystyried gosod daffodiliau yn yr ardal o laswellt blaen yn Heol Bryngwili, yr Hendy, ac i ymgynghori gyda’r Cynghorydd B Evans ynghylch ambell ardal arall fel y nodwyd y llynedd.

### **Cofnod rhif 27 – Sul y Cofio**

Nodwyd bod y gwasanaeth yn cael ei gynnal ar Dachwedd 12<sup>fed</sup>, a bydd y fformat yn debyg i’r hyn a welwyd yn y blynyddoedd blaenorol. **Penderfynwyd** bod y Cynghorydd B Thomas yn cefnogi’r Swyddog Datblygu Cymunedol i drefnu’r gwasanaeth gan fod y SDC yn newydd i’w swydd.

### **Cofnod rhif 28 – Gohebiaeth Gyffredinol**

**Penderfynwyd** nodi’r ohebiaeth ganlynol i’r cofnodion: -

<b>Awdur</b>	<b>Pwnc</b>
Alcohol Concern	Llawlyfr mynd i’r afael â phroblemau yn y gymuned
Cyngor Sir Caerfyrddin	Coeden Nadolig
Y Rheolydd Pensiynau	Cynyddu cyfraniadau
Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru	Adolygiad o Drefniadau Etholiadol yn y Sir.
Yswiriant Zurich Municipal	Adnewyddu’r yswiriant yn y swm o

	£1259.11
--	----------

**Daeth busnes y Cyngor i ben am 9.20 yh**

**Llofnod ..... Dyddiad .....  
Cadeirydd**